



Cynllun Datblygu Ysgol Treganna

2026-27

Crynodeb Cyhoeddedig

Hunanwerthusiad Ysgol 2025-26: Trosolwg	
Cryfderau	
• Addysgu a Dysgu Mae'r rhanfwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u manau cychwyn ac yn datblygu medrau priodol i'w hoedran a'u gallu ar draws y camau cynnydd. Mae gan rhanfwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o'u cynnydd eu hunain mewn ystod o feysydd dysgu a phrofiad • Mae rhanfwyaf o ddisgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth newydd yn effeithiol • Mae rhanfwyaf o'r disgyblion yn dangos datblygiad cadarn o feddwl a medrau datrys problemau • Mae rhanfwyaf o ddisgyblion ag ADY, MATH ac o gefndiroedd incwm isel yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hanghenion unigol • Mae gan yr ysgol drefniadau da iawn i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol, fel y gallant ymgysylltu'n effeithiol iawn â'r ysgol ac elwa o'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig • Mae rhanfwyaf o'r disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu • Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi. Mae ganddynt ddealltwriaeth a chymhwysiad da o ddibenion rheolau, gwobrau a sancsiynau yn yr ysgol. Mae ymddygiad disgyblion yn ystod cyfnodau egwyl a chinio yn dda iawn gyda bron pob un yn ymddwyn yn gyson dda yn y cyd-destunau hyn, ac yn cefnogi eraill i ymddwyn yn dda hefyd • Mae'r ysgol yn defnyddio partneriaethau â sefydliadau eraill, i ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag anghenion arbennig ac anghenion ychwanegol ehangach. Mae'r ysgol yn ymgysylltu â gwasanaethau asiantaethau arbenigol, yn enwedig i ddysgwyr sy'n wynebu rhwystrau sylweddol i ddysgu. Mae ansawdd ac effaith hyn yn barhaus ac yn gryf iawn • Mae rhanfwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o faterion iechyd, diogelwch ac ymddygiad ar-lein • Mae gan rhanfwyaf o'r disgyblion fedrau gwrando a darllen da sy'n eu galluogi i ymgysylltu'n a'u dysgu ar draws y cwricwlwm yn dda iawn. Maent yn cydnabod gwerth y medrau hyn ac o ganlyniad maent yn gallu cyfathrebu a phrosesu er	

mwyn ymgysylltu'n adda â rhyngweithio yn yr ystafell ddosbarth ag athrawon a disgyblion eraill

- Mae medrau ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn deall nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu yn effeithiol ac yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn addas
- Mae medrau siarad llawer o ddisgyblion a medrau ysgrifennu y mwyafrif o ddisgyblion yn dda. O ganlyniad, gallant gyfathrebu'n dda a phrosesu eu dysgu er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus a rhyngweithio yn yr ystafell ddosbarth gydag athrawon a disgyblion eraill. Defnyddiant y medrau hyn yn annibynnol ac yn rheolaidd
- Mae medrau rhifedd yn cael eu cymhwyso'n effeithiol ar draws y cwricwlwm, gyda thystiolaeth yn y rhanfwyaf o lyfrau. Mae medrau rhifedd y rhanfwyaf o ddisgyblion ar draws y cwricwlwm yn dda ar y cyfan. Mae'r rhanfwyaf yn cymhwyso eu medrau yn aml ar y lefel cywir
- Mae medrau digidol rhanfwyaf o ddisgyblion ar draws y cwricwlwm yn dda a llawer yn defnyddio'r medrau yma yn annibynnol
- Ar draws yr ysgol, mae medrau corfforol y rhanfwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Wrth i fedrau'r disgyblion ddatblygu, mae llawer yn cyfranogi'n hyderus mewn sesiynau nofio, criced, rygbi, rygbi tag, rownderi, hoci, pel-rhwyd a phêl-droed yn rheolaidd
- Drwy wasanaethau torfol ac mewn gwersi trawsgwricwlaidd, mae staff yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes a bywydau pobl du a chymdeithas LGBTQ+. Mae hyn yn dwysau ymwybyddiaeth y disgyblion o gymdeithas aml ddiwylliannol a phwysigrwydd sicrhau tegwch a pharch i bawb
- Mae rhanfwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn briodol
- Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau datrys problemau
- Mae cyfnodau cyd-addoli'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau moesol ac ysbrydol yn llwyddiannus. Er enghraifft, o fewn gwasanaethau torfol, mae'r staff yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion fyfyrion ar faterion moesegol pwysig gan gynnwys dangos caredigrwydd a pharchu hawliau eraill o fewn gymdeithas
- Mae profiadau dysgu rhanfwyaf o ddisgyblion o ansawdd uchel ac yn seiliedig ar lefel dda o her i ddysgwyr. Mae datblygiad dysgu trwy gyd-destunau dilys yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y cwricwlwm
- Mae llais / dylanwad dysgwr rheolaidd yn fwyfwy dylanwadol wrth lunio'r ddarpariaeth o ran uchelgais uchel. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei dylanwadu'n rheolaidd gan lais y dysgwr
- Mae rhanfwyaf o'r gwersi wedi'u cynllunio'n dda, yn adeiladu'n ddilynol ar wybodaeth a sgiliau blaenorol, ac yn ystyried diddordebau disgyblion. Mae llawer o athrawon a staff yn defnyddio technegau cwestiynu priodol i annog a datblygu atebion disgyblion ymhellach, ac i fesur eu dealltwriaeth
- Mae'r adborth llafar ac ysgrifenedig gan athrawon yn helpu rhanfwyaf y disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud, a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm bwriadus sydd yn cwrdd â'r rhan fwyaf o feysydd dysgu a phrofiad yn briodol. Maent yn cynnwys barn llawer o'r disgyblion yn gyson wrth gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ennyn diddordeb y disgyblion a'u perchnogaeth o gysyniadau tymhorol
- Mae rhanfwyaf o'r staff yn modelu iaith Cymraeg yn bwrpasol. Mae gan bron bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o anghenion y disgyblion ac maent yn cefnogi pob disgybl i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae llawer o'r staff cymorth yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r lles a dysgu'r disgyblion
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r disgyblion weithio ar eu tasgau yn unigol, o fewn parau ac mewn grwpiau bychain. Mae hyn yn cael effaith

cadarnhaol ar fedrau'r disgyblion wrth iddynt gydweithio i drafod a datblygu eu syniadau ar y cyd

- **Lles, Gofal ac Arweiniad**

Mae rhanfwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o gam-drin corfforol a geiriol yn yr ysgol. Maen nhw'n magu hyder ac yn deall sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet, gweithgaredd corfforol a lles emosiynol. Mae llawer o'r disgyblion yn deall sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein

- Mae'r ysgol yn cynnal diwylliant cryf o ddiogelu, gyda bron bob un o'r staff wedi'u hyfforddi mewn gweithdrefnau amddiffyn plant ac yn adnabod eu cyfrifoldebau'n glir
- Mae cofnodion amddiffyn plant yn fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae ymatebion i bryderon yn brydlon ac yn briodol
- Mae'r ysgol yn gweithredu'n rhagweithiol i hyrwyddo presenoldeb, gyda chyfradd bresenoldeb cyfartalog o 95.6%, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd
- Mae cyfradd absenoldeb heb ganiatâd wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf, o ganlyniad i weithio'n agos gyda Swyddog Presenoldeb y clwstwr ac ymgysylltu rhagweithiol â rhieni
- Mae rhanfwyaf o ddisgyblion ag ADY yn derbyn cymorth wedi'i deilwra, gyda llawer ohonynt â chynllun datblygu unigol sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd ac wedi'i gyd-greu gyda rhieni ac asiantaethau allanol
- Mae bron pob un disgybl yn trin ei gilydd â pharch a charedigrwydd; mae digwyddiadau o fwlio yn brin ac yn cael eu delio â nhw'n gadarn ac yn systematig
- Mae'r ysgol yn gweithredu polisi 'Ymddygiad Cadarnhaol' gyda llawer o'r ddisgyblion yn cyflwyno agwedd gadarnhaol at ddysgu yn ôl arsylwadau dosbarth a data mewnol
- Mae'r system cymorth gan staff lles a'r Tîm Cynhwysiant yn sicrhau bod y rhanfwyaf o'r disgyblion ag anghenion emosiynol yn derbyn mynediad rheolaidd at gymorth
- Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu medrau arwain: mae llawer o ddisgyblion CA2 wedi cymryd rhan mewn rolau cyfrifoldeb fel Llysgenhadon Lles, Cyngor Eco, Dewiniaid Digidol, Criw Cymraeg, Criw'r Enfys neu gynrychiolwyr ar Gyngor Ysgol. Mae cydweithio cryf ag asiantaethau allanol yn sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i bron bob un disgybl mewn perygl o brofi deilliannau andwyol
- Mae'r ysgol yn adolygu'n barhaus effeithiolrwydd y ddarpariaeth trwy gasglu adborth disgyblion, rhieni a staff, gan sicrhau gwelliannau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Ceir ethos gofalg, cynhwysol ac amrywiol sydd wedi ei wreiddio'n ddwfn yng ngwaith yr ysgol
- **Arwain a Gwella**

Mae arweinwyr wedi meithrin tîm ymroddedig, effeithiol o staff ac yn blaenoriaethu lles y gweithlu
- Ceir modelu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol cryf
- Mae trefniadau pontio'n gadarn a chefnogol ar draws y cyfnodau
- Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o'r ysgol ac maent yn cynnig cefnogaeth effeithiol. Mae'r Corff Llywodraethu yn cynnig cymorth heriol, gyda phwyllgorau craffu ar ddata, lles a chyllid yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r llywodraethwyr yn rhan o brosesau Gwerthuso a Gwella'r ysgol ac yn cynnoig adborth ar y prosesau monitro yng nghyfarfod y llywodraethwyr
- Mae'r ysgol yn cynnal gweithgareddau hunanwerthuso cadarn yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella trwy ddefnyddio dadansoddiad manwl o ddata a rhwydweithiau proffesiynol i feithrin arferion effeithiol

- Mae ffocws cryf ar ddatblygiad proffesiynol staff sy'n arwain at fyfyrion a chydweithio adeiladol i wella arferion addysgu
- Mae gweledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm sy'n unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru ac wedi ei ddatblygu'n gydweithredol gyda rhanddeiliaid
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, yn gwneud cynnydd da neu well yn ôl asesiadau mewnol
- Mae gan yr ysgol gyfeiriad strategol clir sy'n rhoi lles a chynnydd pob disgybl wrth wraidd y cwricwlwm a'r darpariaeth. Mae hyn wedi arwain at welliannau mesuradwy ym mhresenoldeb, lles ac ymddygiad
- Mae ethos cynhwysol cryf yn nodwedd amlwg; mae llawer o ddisgyblion yn cael eu cynnwys yn llawn mewn bywyd ysgol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd arwain
- Mae system rheoli perfformiad effeithiol yn cael ei weithredu, gyda adolygiadau dwy waith y flwyddyn sy'n canolbwyntio ar effaith ar ddysgu ac yn nodi camau datblygu clir
- Mae arweinwyr yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn strategol, gan sicrhau bod bron bob un aelod o staff yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau'r ysgol
- Mae gan yr ysgol berthnasoedd cryf gyda rhieni, asiantaethau allanol a'r gymuned, sy'n cyfrannu at gynnydd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn rhannu arferion da ag ysgolion y clwstwr trwy rwydweithiau lleol

Meysydd i'w datblygu

- Datblygu ymhellach strategaethau rhifedd effeithiol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth dysgwyr, sicrhau dilyniant a chryfhau eu sgiliau datrys problemau,
- Datblygu uwch-fedrau darllen disgyblion er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth a gwella eu rhuglder ar draws y cwricwlwm
- Cysoni'r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn cefnogi cynnydd a lles bob dysgwr
- Parhau i wella a datblygu arferion cynhwysol sy'n cefnogi llais ac annibyniaeth dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Cefnogi staff i feithrin dealltwriaeth ddofn a chyson o gysyniad cynnydd ar draws pob maes dysgu a phrofiad, gan gynnwys dehongli data'n ystyrlon i lywio camau nesaf
- Cysoni dulliau adborth ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn adborth adeiladol, clir ac effeithiol sy'n sbarduno eu dysgu a'u hannog i hunanwerthuso'n annibynnol
- Parhau i fireinio trefniadau cynllunio, asesu a thracio cynnydd, gan sicrhau defnydd strategol o ddata i adnabod patrymau, monitro effaith a chynllunio camau gwelliant priodol
- Sicrhau bod Addysg Rhyw a Chydberthynas wedi ei wreiddio'n llawn trwy'r cwricwlwm, gan ei gyflwyno mewn ffordd sensitif, datblygiadol a chyd-destunol sy'n cefnogi lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion
- Gweu egwyddorion amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth yn ymarferol trwy'r cwricwlwm cyfan, gan feithrin dealltwriaeth ddiwylliannol, empathi a pharch at wahaniaethau ymhlith pob dysgwr

Gwerthuso Cynllun Datblygu Ysgol 2025/2026	
Blaenoriaeth	Gwerthusiad o'r cynnydd
Blaenoriaeth 1 Rhifedd Ydyn ni'n achub ar gyfleoedd i'n dysgwyr gymhwyso a datblygu eu sgiliau rhifedd yn gynyddol ar draws y cwricwlwm? Portffolio Rhifedd Trawsgwricwlaidd — Casglu tystiolaeth o gyfleoedd trawsgwricwlaidd ar draws y flwyddyn. Effaith: adnabod meysydd i'w gwella a chynllunio hyfforddiant targedig i staff. Hyfforddiant Ysgol Gyfan — Sesiwn ar y 5 hyfedredd a dulliau effeithiol o blethu rhifedd yn y chwe Maes Dysgu. Effaith: gwella dealltwriaeth staff o sut i gynllunio cyfleoedd pwrpasol i gymhwyso sgiliau rhifedd. Arsylwadau Dysgu â ffocws ar rifedd — Arsylwadau penodol i sicrhau profiadau cytbwys ar draws y blynyddoedd. Effaith: disgyblion yn derbyn cyfleoedd priodol; adborth cadarnhaol; camau nesaf yn cynnwys rhannu arfer dda a chynnal hyfforddiant parhaus ar y pum hyfedredd. Holiadur Staff Addysgu Rhifedd — Dadansoddi hyder a dealltwriaeth staff o addysgu rhifedd. Effaith: galluogi hyfforddiant priodol a chysoni arfer ar draws yr ysgol. Mapiau Cynnydd Rhifedd — Cyflwyno disgwyliadau a chamau dilyniant clir i staff. Effaith: strwythur cryf ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd; cam nesaf yw adolygu sgiliau yn dilyn cymedroli. CLIP Rhifedd ar draws y cwricwlwm — Cydweithio ag ysgolion CLIP i rannu arfer dda a mapio cyfleoedd rhifedd. Effaith: sicrhau cyfleoedd cyson ac ystyrlon i ddisgyblion gymhwyso sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Cynllun Ymchwil Singapore Maths — Cyfranogi mewn diwrnod ymchwil cenedlaethol i rannu canfyddiadau. Effaith: casglu arfer effeithiol ar gyfer cynllun datblygu 26–27; gwella sgiliau rhesymu a thrafod mathemateg disgyblion. Hyfforddiant a defnydd Trinolion — Hyfforddiant i staff Bl 2–6 a dosbarthu trinolion i bob dosbarth. Effaith: cryfhau sgiliau mathemateg a rhifedd; sicrhau adnoddau priodol ar draws yr ysgol.	
Blaenoriaeth 2 Llythrennedd I ba raddau ydyn ni'n darparu cyfleoedd pwrpasol ynghyd â gosod disgwyliadau uchel, i alluogi disgyblion i uwch lefelu eu sgiliau ysgrifennu estynedig ac i saernio eu gwaith yn effeithiol ar gyfer cynulleidfaoedd a dibenion dilys? Prynhawniau Dathlu Dysgu — Disgyblion yn darllen, trafod ac arddangos gwaith creadigol o flaen rhieni/gofalwyr. Effaith: cynnydd sylweddol yn hyder cyfathrebu; balchder amlwg yn eu gwaith; lwyfan cyhoeddus i arddangos ysgrifennu o safon. Cymedroli Terfynol — Cymharu gwaith disgyblion â meini prawf cenedlaethol a gwaith mis Rhagfyr/Mawrth. Effaith: dealltwriaeth gliriach o safonau; asesu cyson ar draws yr ysgol; tystiolaeth gadarn o gynnydd dros amser. Adolygu Ysgrifennu Disgyblion — Asesu cynnwys, syniadau, geirfa, cywair, sillafu, treigladau a brawddegau ar draws y flwyddyn. Effaith: darlun cynhwysfawr o ddatblygiad iaith; galluogi cynllunio targedig ar gyfer gwella. Defnyddio Adborth i Lywio Blwyddyn Nesaf — Gwybodaeth o adolygiadau, cymedroli ac adborth yn llywio polisiâu a chynlluniau gwaith. Effaith: ffocws strategol newydd ar ddarllen; mentrau fel Libraries for Primaries, Logo Hopes a Cal:On yn cefnogi datblygiad darllen ar draws yr ysgol.	

5. **Arolwg Disgyblion ac Athrawon** — Holiadur mis Gorffennaf i gasglu barn ar heriau a mentrau ysbrydoledig. Effaith: mewnwelediad uniongyrchol i brofiadau; galluogi gwelliannau targed i ddarpariaeth iaith a phrofiadau dysgu.
6. **Gwerthusiad Gwersi Iaith Strwythuredig** — Casglu data ar effaith sesiynau sillafu, treigladau a brawddegau drwy'r arolwg diwedd blwyddyn. Effaith: tystiolaeth glir i lywio addasu a mireinio'r ddarpariaeth iaith y flwyddyn nesaf.
7. **Cryfhau'r Broses Ysgrifennu Cam-wrth-Gam** — Disgyblion yn dilyn pob cam: trafod, cynllunio, drafftio, adborth, diwygio ac ail-ysgrifennu. Effaith: ysgrifennu estynedig o ansawdd uwch; llai o wallau; gwell hunan-ddiwygio; mwy o annibyniaeth a hyder.
8. **Sesiynau Trochi Iaith Creadigol** — Cyfres o weithgareddau trochi iaith llai ffurfiol a gynhaliwyd mewn dosbarthiadau, gan gynnwys tasgau creadigol, sgwrsio estynedig a chyfleoedd i ysgrifennu mewn cyd-destunau hwyliog. Effaith: darparu sbardunau iaith rheolaidd; cynyddu defnydd naturiol o Gymraeg ac iaith ysgrifenedig; cefnogi datblygiad syniadau a chynllunio ysgrifennu estynedig drwy brofiadau creadigol.

Blaenoriaeth 3 – Cymreictod

Ydyn ni'n cyfoethogi a gwella Cymreictod yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn a chodi cyrhaeddiad disgyblion?

- **Egwyddorion a disgwyliadau cyson** — Trefnwyd hyfforddiant cychwynnol i staff, gan sicrhau dealltwriaeth glir o'r egwyddorion. Effaith: dull cyson ar draws yr ysgol a chodi statws y Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd ysgol.
- **Slogan a gwelededd cryf** — Mabwysiadu'r slogan "Cymraeg bob amser yn gyntaf" i greu hunaniaeth weledol. Effaith: cynyddu ymwybyddiaeth iaith; rhieni'n adrodd eu bod yn defnyddio'r slogan adref.
- **Cymhelliant a gwobrwyo** — Sticeri i gydnabod defnydd naturiol o'r Gymraeg. Effaith: meithrin agwedd bositif ac annog defnydd rheolaidd ar draws yr ysgol.
- **Cytundebau dosbarth** — Targedau defnydd iaith a chytundebau gweledol wedi'u llofnodi gan ddisgyblion. Effaith: cynyddu perchnogaeth ac ymgysylltiad ar lefel dosbarth.
- **Cysylltu â theuluoedd** — Mentrau fel "gair ar y gât", sesiynau i rieni a geirfa cartref. Effaith: normaleiddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol a chryfhau cefnogaeth gartref.
- **Tasgau iaith cudd** — Tasgau creadigol i sbarduno defnydd naturiol a hwyliog. Effaith: meithrin balchder, cydweithio a mwynhad; syniad sy'n werth ei ddatblygu ymhellach.
- **Rhannu arfer dda** — Cysylltu ag Ysgol Penboyr ac Ysgol St Pedr; Criw Cymraeg yn cynnig cymorth ac arweiniad. Effaith: codi statws y fenter, plant yn perchnogi'r prosiect ac yn cyfrannu syniadau i'w wella.

Blaenoriaeth 4 – Lles Cynhwysiant ac ADY

Ydyn ni'n sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn diwallu anghenion pob disgybl ac yn cefnogi addysg gynhwysol?

1. **Fframwaith Hunan-fyfyrion Cynhwysiant** — Llunio offeryn hunan-fyfyrion CADY a phorth dysgu proffesiynol i gefnogi athrawon wrth adnabod cryfderau a meysydd datblygu. Effaith: gwella hunan-fyfyrion proffesiynol; creu ystafelloedd dosbarth mwy cynhwysol; cryfhau diwylliant ysgol.

2. **Taith Dysgu “Cefnogi Ymarfer Cynhwysol”** — Cyfarfod strategol ac ymweliad crwydr dysgu gyda thîm arbenigol yr ALI. Effaith: darlun clir o'r sefyllfa bresennol; nodi meysydd cryfder a datblygu; llywio camau gwella ar lefel ysgol gyfan.
3. **Awdit Clwstwr “Cau'r Bwlch Tlodi”** — Cyfranogi mewn awdit clwstwr, croesawu partneriaid allanol, a rhannu arferion da. Effaith: sail gadarn ar gyfer strategaethau i leihau rhwystrau economaidd; cryfhau dulliau cynhwysol ar draws ysgolion; defnyddio canfyddiadau i lywio gweithredu ymarferol.
4. **Gweithdy “Y Nyth” i Rieni** — Trefnu gweithdy strategaethau gweledol a mynychu sesiynau goruchwyllo seicolegydd addysg. Effaith: cyfle i fyfyrion ar arferion; gwella dulliau cefnogi dysgwyr; meithrin amgylchedd dysgu mwy cadarnhaol.
5. **Cylch Datrysiad (Solution Circles)** — Sesiynau dysgu proffesiynol pythefnosol i'r Tîm Cynorthwyo Addysgu. Effaith: cryfhau cyfathrebu a chydweithio; darparu lle diogel i rannu syniadau; datblygu arferion creadigol a chynhwysol ar gyfer anghenion amrywiol.
6. **Rhaglen AET – Asesu Anghenion Staff** — Awdit anghenion proffesiynol gyda thîm arbenigol awtistiaeth yr ALI. Effaith: darlun clir o gryfderau a meysydd datblygu; arwain at arferion mwy cynhwysol; strategaethau cyson sy'n gwella cyfranogiad a lles dysgwyr.
7. **Cam Nesaf AET – Hyfforddiant wedi'i Deilwra** — Datblygu rhaglen hyfforddiant yn seiliedig ar ganfyddiadau'r awdit ac mewn partneriaeth â'r tîm arbenigol. Effaith: gwella hyder staff; sicrhau dulliau cefnogi sy'n seiliedig ar dystiolaeth; cryfhau darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag awtistiaeth.
8. **Pontio Cynhwysol / Targedig** — Noson bontio anffurfiol ar gyfer teuluoedd plant ag anghenion penodol. Effaith: galluogi cynllunio personol ar sail gwybodaeth fanwl; lleihau rhwystrau i ddysgu; meithrin perthynas gynnar a chydweithredol rhwng staff a rhieni; sicrhau pontio llyfn i fis Medi.

Blaenoriaeth 5 – Dysgu, addysgu ac Asesu - I ba raddau rydym yn cefnogi staff i ddatblygu dealltwriaeth glir o gynnydd ym mhob agwedd ar ddysgu disgyblion?

1. **Targedau Unigol ar y Platfform Cynnydd** — Disgyblion wedi gosod targedau llythrennedd a rhifedd ac wedi cwblhau'r proffil un dudalen. Effaith: cryfhau ymwybyddiaeth o ddysgu; monitro cynnydd yn fwy effeithiol; rhieni'n ymgysylltu'n gadarnhaol; angen parhau i atgoffa disgyblion i adolygu targedau a chreu targedau SMART.
2. **Adolygu Polisi Marcio a Dulliau Newydd** — Cyflwyno “bocs blaengar” a “Gwerthuso Gwerthfawr” i wella adborth. Effaith: hyrwyddo adborth ystyrion; disgyblion yn cymryd camau pendant i wella; dulliau'n gweithio'n dda yn uwch yn yr ysgol; angen hyfforddiant parhaus i sicrhau cysondeb ac i ddiffinio uwchlefelu ym Mlwyddyn 3–4.
3. **Cyflwyno Mapiau Cynnydd** — Mapiau Cynnydd ar gyfer llythrennedd a rhifedd wedi'u cyflwyno i staff. Effaith: strwythur clir ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd; cam nesaf yw adolygu sgiliau yn dilyn cymedroli.
4. **Defnyddio Cerrig Milltir a Daenlen Asesu** — Staff yn defnyddio mapiau cynnydd ac yn llenwi'r daenlen asesu. Effaith: galluogi creu grwpiau ffocws i dargedu unigolion yn fwy effeithiol.
5. **Targedau Tymor Ionawr ar y Platfform Cynnydd** — Disgyblion yn gosod targedau newydd ar ddechrau'r tymor. Effaith: meithrin perchnogaeth dros ddysgu; cryfhau hunanfyfyrion.
6. **Sesiwn Cyd-safoni Ysgrifennu** — Hyfforddiant gan The Literacy Company ar ddisgwyliadau cenedlaethol a chamau cynnydd. Effaith: dealltwriaeth gliriach o safonau; mwy o gysondeb ar draws tîmau blwyddyn; hyder uwch wrth wneud penderfyniadau proffesiynol; cydweithio ar lunio offeryn asesu newydd yr ysgol.

7. Profion Cenedlaethol a Dadansoddi Data — Dadansoddi data unigol a grŵp i nodi cryfderau a bylchau. Effaith: cynllunio tymor yr haf yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion; creu grwpiau targed; dull cydweithredol gyda rhieni drwy drafod data mewn nosweithiau rhieni. 8. Ciplun Cynnydd a Chynllunio Ymyriadau — Llunio Ciplun Cynnydd ar ddechrau'r tymor i gyd-fynd ag asesu newydd. Effaith : adnabod anghenion yn gyflym; cynllunio ymatebion pwrpasol; cefnogi cynnydd cadarnhaol drwy ymyriadau byr a thargedig. 9. Datblygu Offeryn Asesu Newydd — Staff wedi cydweithio i greu dull asesu systematig a chyson. Effaith: darlun cliriach o ddatblygiad disgyblion; cynllunio mwy ymatebol; perchnogaeth staff ar y dull; gweithredu llawn yn y flwyddyn academiaidd nesaf.		
Blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol 2026-2027		
Blaenoriaeth 1 Rhifedd	Sut gallwn ddatblygu ymhellach strategaethau rhifedd effeithiol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth dysgwyr, sicrhau dilyniant a chryfhau eu sgiliau datrys problemau?	
Cerrig milltir mis Rhagfyr	Cerrig milltir mis Mawrth	Cerrig milltir mis Gorffennaf
1.Gwerthuso'r map cynnydd drwy deithiau dysgu, trafodaethau staff a chraffu ar lyfrau i sicrhau bod y dilyniant mathemategol yn glir ac yn gyson ar draws y blynyddoedd. (Tachwedd) 2.Defnyddio'r system tracio rhifedd i adnabod bylchau mewn dealltwriaeth a chynllunio ymyriadau amserol. (Hydref) 3. Monitro defnydd o drefnolion mathemateg ym mhob dosbarth, gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn adeiladol yn dilyn hyfforddiant Louise Davies. (Tachwedd) 4.Cynnal cyfarfodydd cynnydd i drafod data asesu tymhorol a chynnydd dysgwyr mewn rhifedd. (Hydref)	1.Monitro perfformiad disgyblion drwy graffu ar lyfrau, teithiau dysgu a sgysiau â dysgwyr gyda ffocws ar resymu a chymhwyso. (Chwefror) 2.Asesu effeithiolrwydd strategaethau a roddwyd ar waith hyd yma gan ddefnyddio data canol tymor. (Mawrth) 3. Parhau i ddatblygu'r strategaeth "Angor" a monitro ei chysondeb ar draws dosbarthiadau. (Ionawr) 4.Teithiau dysgu staff a disgyblion i werthuso modelu, annibyniaeth a chymhwyso'r 5 hyfedredd mathemategol.(Chwefror) 5.Dadansoddi data asesu tymhorol i lywio cynllunio a chynlluniau ymyrraeth. (Mawrth)	1.Dadansoddi canlyniadau Asesiadau Personol Haf 2027 i werthuso effaith y strategaethau blynyddol. (Mehefin) 2.Adolygu'r holiadur staff i fesur newid mewn hyder ac arferion addysgu o gymharu â'r gwaelodlin. (Mehefin) 3.Gwerthuso'r map trawsgwricwlaidd sy'n dangos sut mae sgiliau rhifedd wedi'u cymhwyso mewn themâu dilys. (Mai) 4.Cytuno ar gamau gweithredu 27/28 gan gynnwys amserlenni hyfforddiant a thargedau pontio 6/7. (Gorffennaf) 5.Gwerthuso'r Cynllun Mathemateg a Rhifedd drwy hunanarfarnu staff cyfan. (Gorffennaf)

5.Datblygu arferion Singapore Maths drwy hyfforddiant, modelu ac arsylwadau cydweithredol. (Medi) Cychwyn ar greu adnoddau “Angor” ar gyfer sesiynau wythnosol datrys problemau (FI 3– gan ddefnyddio amser rhyddhau GDP. (Medi) 6.Cyd-gynllunio trawsgwricwlaidd i sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i gymhwyso sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn. (Medi) 7.Craffu ar gynlluniau gwersi i sicrhau bod y Pum Hyfedredd yn cael eu plethu’n naturiol mewn cynllunio tymor canolog. (Tachwedd)	6.Craffu ar gynllunio trawsgwricwlaidd i sicrhau bod tasgau’n datblygu rhesymu rhifyddol yn ymarferol. (Mawrth) 7.Hyfforddiant a modelu gan The Learning Partnership i gryfhau gwybodaeth bynciol ac ansawdd addysgu. (Ionawr) 8.Cyfarfodydd cynnydd i drafod cynnydd dysgwyr a sicrhau her briodol. (Mawrth)	6.Adolygu cysondeb trefnolion mathemateg ar draws yr ysgol. (Mai) 7.Gwerthuso effaith y strategaeth “Angor” ar ddatrys problemau, rhuglder a hyder dysgwyr. (Mehefin) 8.Adolygu defnydd o’r system tracio i fesur cynnydd a chynllunio camau nesaf. (Mai) 9.Cynnal digwyddiadau rhieni megis gweithdai, caffi mathemateg a lansio’r wefan rhifedd. (Ebrill) 10.Cwblhau mapio dilyniannau dysgu ar draws y cwricwlwm i sicrhau dilyniant a chydlyniad. (Mehefin)
Blaenoriaeth 2 Llythrennedd	Sut gallwn ddatblygu uwch-fedrau darllen disgyblion er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth a gwella eu rhuglder ar draws y cwricwlwm?	
Cerrig milltir mis Rhagfyr	Cerrig milltir mis Mawrth	Cerrig milltir mis Gorffennaf

1. Mapio cyfleoedd darllen trawsgwricwlaidd wedi'i gwblhau. Mapio wedi'i orffen erbyn Hydref, gan nodi cyfleoedd darllen mewn pob pwnc. 2. Archebu testunau o ansawdd uchel wedi'i gwblhau Archebion wedi'u cwblhau erbyn Hydref 2026 gan ddefnyddio cyllid y GRhA. 3. Hyfforddiant data darllen cychwynnol wedi'i ddarparu Sesiynau hyfforddi i staff ym Hydref ar ddehongli data darllen a chynllunio ymyriadau. 4. Platfform digidol mewdol wedi'i sefydlu Lansio'r platfform yn Hydref gyda'r adnoddau cyntaf wedi'u huwchlwytho. 5. System ganolog llyfrau wedi'i chreu System fenthyg a chofnodi stoc wedi dechrau ym Tachwedd. 6. Pecynnau darllen dwyieithog wedi'u creu Dosbarthiad erbyn Tachwedd. 7. Gweithdy rhieni cyntaf wedi'i gynnal Cynnal yn Nhachwedd. 8. Mannau darllen cyfoethog wedi'u sefydlu Mannau darllen wedi'u hadnewyddu erbyn Rhagfyr. Dodrefn newydd, arddangosfeydd thematig a chorneli tawel ar draws yr ysgol.	1. Teithiau dysgu i werthuso sgiliau darllen wedi'u cynnal Teithiau wedi'u cwblhau ar draws yr ysgol erbyn Chwefror. 2. Dadansoddi data tymhorol i nodi bylchau cynnar Dadansoddiad tymor gwanwyn wedi'i gwblhau yn Ionawr. 3. Hyfforddiant strategaethau darllen craff wedi'i gwblhau Hyfforddiant ychwanegol i bob aelod o staff ym Ionawr. Staff yn defnyddio strategaethau craffu'n fwy cyson mewn gwersi ar draws yr ysgol. 4. Rhannu arfer ar y platfform digidol wedi cynyddu Adnoddau newydd wedi'u hychwanegu erbyn Mawrth. Staff yn rhannu fideos modelu darllen ac adnoddau cwestiynu yn rheolaidd. 5. Monitro defnydd o'r manau darllen Monitro yn y gwanwyn (Mawrth) - defnydd o'r manau darllen newydd yn ystod amseroedd rhydd a sesiynau darllen tawel. 6. Arolwg agweddau disgyblion wedi'i gwblhau Arolwg wedi'i gynnal ym Chwefror ac wedi'i ddadansoddi erbyn Mawrth.	1. Cynnydd darllen trawsgwricwlaidd wedi'i fesur a'i ddogfennu Asesiadau a theithiau dysgu'r haf wedi'u cwblhau erbyn Mehefin–Gorffennaf. 2. Lleihad yn y bwlch cyrhaeddiad wedi'i ddangos drwy ddata diwedd tymor Dadansoddiad haf wedi'i gwblhau erbyn Gorffennaf. 3. Platfform digidol darllen yn weithredol gyda defnydd uchel wythnosol. Llyfrgell adnoddau cynhwysfawr wedi'i chwblhau erbyn Mai gyda thros 30 o adnoddau newydd erbyn diwedd y tymor. 4. Cofnodion llyfrau wedi'u gwerthuso Gwerthusiad wedi'i gwblhau erbyn Mehefin. System fenthyg a rheoli llyfrau yn weithredol ac yn cael ei defnyddio'n gyson. 5. Partneriaethau cymunedol cynaliadwy wedi'u sefydlu Digwyddiadau darllen rheolaidd gyda'r llyfrgell, siop lyfrau a sefydliadau lleol wedi'u cynnal rhwng Ebrill a Gorffennaf. 6. Tystiolaeth yn dangos bod cynnydd yn hyder a rhuglder darllen y disgyblion. Asesiadau'r haf (Mai–Gorffennaf) yn dangos cynnydd mewn rhuglder, dealltwriaeth a defnydd o eirfa. 7. Rhieni yn fwy ymgysylltiedig gyda
---	---	---

9. Partneriaethau cymunedol wedi'u ffurfioli Cydweithio â'r llyfrgell leol, sioplyfrau a sefydliadau cymunedol erbyn Rhagfyr 2026. Cytundebau ar gyfer sesiynau darllen, benthyca a digwyddiadau tymhorol. 10. Darllen ar y cyd wedi'i gyflwyno'n gyson Rhaglen darllen ar y cyd wedi'i sefydlu ym mhob dosbarth ers Hydref.	7. Ail gweithdy rhieni wedi'i gynnal Cynnal yn Chwefror gyda ffocws ar gefnogi teuluoedd di-Gymraeg. Rieni'n derbyn adnoddau dwyieithog a strategaethau ymarferol i gefnogi darllen gartref. 8. Adolygu partneriaethau cymunedol wedi'i gwblhau Adolygiad gwanwyn wedi'i gynnal erbyn Mawrth. 9. Monitro rhuglder drwy asesiadau darllen ar y cyd Asesiadau rhuglder wedi'u cynnal ym Ionawr a Mawrth. 10. Adolygu cynllunio trawsgwricwlaidd i sicrhau cysondeb Adolygiad gwanwyn wedi'i gwblhau erbyn Mawrth.	thystiolaeth o gefnogaeth gartref Arolwg rhieni'r haf wedi'i gwblhau ym Mehefin. .8. Adolygiad terfynol o strategaethau darllen i lywio cynllunio'r flwyddyn nesaf Adolygiad wedi'i gwblhau erbyn Gorffennaf. Argymhellion clir ar gyfer hyfforddiant staff, adnoddau a ffocws trawsgwricwlaidd ar gyfer 2027–28. 9. Adroddiad effaith ysgol gyfan wedi'i lunio Adroddiad cynhwysfawr wedi'i gwblhau ym Gorffennaf gan grynhoi: Data meintiol, Arsylwadau gwersi, Tystiolaeth ansoddol gan ddisgyblion, staff a rhieni 10. Tystiolaeth yn dangos gwell canlyniadau darllen ar draws y cyfnodau Data diwedd y tymor haf wedi ei gwblhau erbyn Gorffennaf.
Blaenoriaeth 3 Addysgu a Dysgu	Sut gallwn gysoni'r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn cefnogi cynnydd a lles bob dysgwr?	
Cerrig milltir mis Rhagfyr 1. Cwblhau'r cylch cyntaf o arsylwadau trionglau dysgu. Cwblhau arsylwadau ym mhob tîm blwyddyn. (Tachwedd) 2. Rhannu adborth yn ystod cyfarfodydd adran, gan	Cerrig milltir mis Mawrth 1. Cynnal ail gylch o arsylwadau trionglau dysgu erbyn hanner cyntaf mis Chwefror, gan ganolbwyntio ar feysydd a nodwyd yn Rhagfyr. 2. Adolygu cofnodion adborth a thrafodaethau ôl-arsylwi yn ystod	Cerrig milltir mis Gorffennaf 1. Cwblhau'r trydydd cylch o arsylwadau trionglau dysgu erbyn diwedd mis Mehefin, gan ddogfennu cynnydd ers Ionawr a Rhagfyr. 2. Paratoi adroddiad ysgol-gyfan ar adborth ac arsylwi erbyn wythnos

ddefnyddio iaith adborth fanwl gywir. 3.Cwblhau hyfforddiant dulliau arsylwi i staff erbyn canol mis Hydref, gan sicrhau dealltwriaeth gyffredin. 4. Cynnal ymchwil addysgeg cychwynnol gan bob tîm blwyddyn erbyn diwedd mis Tachwedd, gan gynnwys casglu tystiolaeth llinell sylfaen. 5.Creu egwyddorion gwahaniaethu ysgol-gyfan a'u rhannu gyda staff yn HMS mis Tachwedd. 6.Adolygu ardaloedd allanol a chasglu tystiolaeth llinell sylfaen ar annibyniaeth erbyn hanner tymor Hydref. 7. Mapio'r 12 egwyddor addysgeg yn y Fframwaith Dysgu ac Asesu erbyn diwedd mis Tachwedd, gyda dogfennau wedi'u diweddarau. 8. Cynnal cyfarfodydd rhwydweithiau CLIP a rhannu arferion cychwynnol yn ystod Hydref a Thachwedd. 9. Cyd-greu disgwyliadau'r Continiwm Chwarae gyda disgyblion erbyn diwedd mis Hydref, gan gynnwys iaith gyffredin ar gyfer sgiliau. 10. Cwblhau drafft y pecyn arsylwi ysgol-gyfan a hyfforddi staff ar ei ddefnyddio erbyn mis Rhagfyr, yn barod ar gyfer cylch arsylwi'r gwanwyn.	cyfarfodydd tîm lonawr–Chwefror, gan fonitro cysondeb iaith adborth. 3.Casglu tystiolaeth ymchwil addysgeg yn dymhorol erbyn diwedd mis Chwefror, gan gynnwys arsylwadau, data disgyblion a chasgliadau cychwynnol. 4.Monitro effaith gwahaniaethu drwy graffu ar lyfrau a gwersi yn lonawr a Chwefror, gan nodi strategaethau sy'n cael yr effaith fwyaf. 5.Adolygu ardaloedd allanol eto erbyn hanner tymor Chwefror, gan wirio cynnydd mewn annibyniaeth, trefniadaeth a datrys problemau. 6.Craffu ar ddilyniant yn y Fframwaith Dysgu ac Asesu drwy deithiau dysgu yn Chwefror–Mawrth, gan sicrhau bod y 12 egwyddor addysgeg yn weladwy mewn cynllunio ac addysgu. 7.Monitro effaith rhwydweithiau proffesiynol CLIP yn ystod cyfarfodydd mis lonawr a Mawrth, gan adolygu arferion a rennir. 8.Adolygu'r Continiwm Chwarae bob hanner tymor, gan gasglu tystiolaeth o gynnydd mewn sgiliau chwarae, cydweithio ac annibyniaeth. 9.Defnyddio'r pecyn arsylwi ysgol-gyfan yn llawn ar gyfer arsylwadau Tymor y Gwanwyn erbyn diwedd mis Mawrth, gan	gyntaf Gorffennaf, gan dynnu sylw at batrymau a gwelliannau mewn addysgeg. 3.Cyhoeddi canfyddiadau ymchwil addysgeg blynyddol gan bob tîm blwyddyn yn Mehefin–Gorffennaf, gan gynnwys argymhellion ar gyfer y flwyddyn nesaf. 4.Adolygu gwahaniaethu ysgol-gyfan erbyn diwedd mis Mehefin, gan grynhoi'r egwyddorion a'r strategaethau mwyaf effeithiol. 5.Monitro cynnydd mewn annibyniaeth awyr agored drwy arsylwadau a thystiolaeth o sgiliau erbyn hanner cyntaf Gorffennaf. 6.Adolygu'r Fframwaith Dysgu ac Asesu erbyn diwedd mis Mehefin, gan ddiweddarau mapiau dilyniant a meini prawf llwyddiant. 7.Paratoi adroddiad ar effaith rhwydweithiau proffesiynol CLIP erbyn wythnos olaf Mehefin, gan ddangos sut mae cydweithio wedi gwella addysgu. 8. Crynhau cynnydd y Continiwm Chwarae erbyn Gorffennaf, gan gynnwys tystiolaeth o lais y disgybl a datblygiad sgiliau chwarae. 9. Dadansoddi patrymau ysgol-gyfan o'r pecyn arsylwi yn Mehefin–Gorffennaf, gan nodi meysydd cryf a blaenoriaethau ar gyfer Medi.
---	---	--

	ddogfennu modelu, cwestiynu ac eglurder dysgu. 10.Cytuno ar gamau gwella ar gyfer tymor yr haf	10. Paratoi blaenoriaethau strategol ar gyfer Medi erbyn wythnos olaf y tymor, gan ddefnyddio tystiolaeth gadarn o bob maes blaenoriaeth.
Blaenoriaeth 4 Lles, Cynhwysiant ac ADY	Datblygu systemau ysgol gyfan er mwyn sicrhau bod llais dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn llywio ac yn rhan greiddiol o gynllunio, addysgu ac adolygu.	
Cerrig milltir mis Rhagfyr	Cerrig milltir mis Mawrth	Cerrig milltir mis Gorffennaf
1. Hyfforddiant person-ganolog Hyfforddiant staff ar ddulliau person-ganolog ac AAC wedi'i gwblhau erbyn Rhagfyr. 2. Pecynnau paratoi cyfarfodydd Pecynnau paratoi cyfarfodydd (lluniau, cardiau dewis, templedi syml) wedi'u dosbarthu i bob dosbarth erbyn Tachwedd, 3.Sesiwn rhieni ADY Sesiwn gwybodaeth i rhieni gan CADY wedi'i chynnal erbyn Tachwedd. 4.Gwefan dysgu cynhwysol Gwefan dysgu cynhwysol Ysgol Treganna wedi'i sefydlu a'i rhannu gyda staff erbyn Tachwedd. 5.System tracio CDU System tracio ysgol gyfan wedi'i sefydlu ac yn weithredol erbyn Tachwedd.	1.Arsylwadau person-ganolog Arsylwadau cyfarfodydd person-ganolog wedi'u cwblhau erbyn Mawrth. 2.Arolwg rhieni Arolwg tymhorol rhieni ADY wedi'i gasglu a'i ddadansoddi erbyn Mawrth. 3. Monitro effaith llais disgybl Monitro effaith newidiadau o adborth disgyblion ADY wedi'i gwblhau erbyn Mawrth. 4.Teithiau dysgu cynhwysiant Teithiau dysgu Mawrth ar gynhwysiant ac addasu wedi'u cwblhau. 5.Adolygiad data CDU Adolygiad tymhorol o ddata CDU gyda staff, rhieni a disgyblion erbyn Mawrth. 6.Adolygiad nodau meta-wybyddol Adolygu nodau dysgu a	1. Adolygiad llais y dysgwr Dadansoddi adborth disgyblion a rhieni i nodi bylchau erbyn Gorffennaf. 2.Arsylwadau person-ganolog terfynol Arsylwadau terfynol ar gyfarfodydd person-ganolog erbyn Mehefin. 3.Monitro effaith llais disgybl Monitro effaith newidiadau o adborth disgyblion erbyn Mehefin 4.Adolygiad cynhwysiant terfynol Dadansoddi data cynhwysiant a thueddiadau CDU erbyn Gorffennaf. 5.Teithiau dysgu meta-wybyddiaeth terfynol Teithiau dysgu terfynol ar strategaethau meta-wybyddol erbyn Mehefin. 6.Adolygiad nodau dysgu Adolygu nodau dysgu a

6.Hyfforddiant MeLSA Hyfforddiant MeLSA i staff allweddol wedi'i gwblhau erbyn Rhagfyr. 7.Teithiau dysgu cynhwysiant Teithiau dysgu Tachwedd wedi'u cwblhau ac adroddiad cryno wedi'i rannu erbyn Rhagfyr. 8.Teithiau dysgu meta-wybyddiaeth Teithiau dysgu ar strategaethau meta-wybyddol wedi'u cwblhau erbyn Rhagfyr. 9.Monitro MeLSA Monitro cynnydd dysgwyr MeLSA wedi'i gwblhau erbyn Tachwedd. 10. Gwerthusiad tymor Hydref Gwerthusiad ffurfiol Tymor yr Hydref wedi'i gwblhau erbyn Rhagfyr.	myfyrio disgyblion erbyn Mawrth. 7.Monitro MeLSA Monitro cynnydd MeLSA wedi'i gwblhau erbyn Mawrth. 8.Adolygiad effaith MeLSA Adolygiad effaith MeLSA drwy deithiau dysgu Mawrth. 9.Cyfarfod Grŵp Rhieni ADY Cyfarfod Grŵp Rhieni ADY wedi'i gynnal erbyn Chwefror. 10.Gwerthusiad Tymor y Gwanwyn Gwerthusiad ffurfiol Tymor y Gwanwyn wedi'i gwblhau erbyn Mawrth.	myfyrio disgyblion erbyn Mehefin. 7.Monitro MeLSA terfynol Monitro terfynol cynnydd MeLSA erbyn Gorffennaf. 8.Adolygiad effaith MeLSA Adolygiad effaith MeLSA drwy deithiau dysgu Gorffennaf. 9.Cyfarfod Grŵp Rhieni ADY terfynol Cyfarfod terfynol Grŵp Rhieni ADY erbyn Gorffennaf. 10.Gwerthusiad Tymor yr Haf Gwerthusiad ffurfiol Tymor yr Haf wedi'i gwblhau erbyn Gorffennaf.
---	---	---